Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
# Adran Addysg ac Astudiaethau Plentyndod, Prifysgol Abertawe
# Parc Singleton
# Abertawe
# SA2 8PP

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024 – Mehefin 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Phartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe

Mae Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe yn cynnwys Prifysgol Abertawe, pedair ar ddeg o ysgolion arweiniol a phum deg o ysgolion rhwydwaith sydd wedi'u lleoli yn ne a gorllewin Cymru. Yn y brifysgol, mae'r bartneriaeth wedi'i lleoli yn yr Adran Addysg ac Astudiaethau Plentyndod sy'n rhan o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Chyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig dwy raglen. Achredwyd y rhaglen TAR Uwchradd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2020 i gynnig naw pwnc, sef: bioleg, cemeg, ffiseg, cyfrifiadureg, dylunio a thechnoleg, Saesneg, mathemateg, Ieithoedd Tramor Modern, a Chymraeg. Ar ôl cael ei hachredu, dechreuodd y rhaglen TAR Cynradd yn 2022.

Mae'r ddwy raglen TAR yn gyrsiau amser llawn sy'n para blwyddyn. Caiff y rhaglen gynradd a'r holl lwybrau pwnc ar y rhaglen uwchradd eu cynnig ag opsiynau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae 68 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd, y mae 10 ohonynt yn astudio'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 25 o fyfyrwyr ar y rhaglen TAR Cynradd ac mae 5 ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

Yn y pedair blynedd ers sefydlu Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, mae staff y brifysgol ac ysgolion wedi cydweithio â'i gilydd yn bwrpasol, gan feithrin partneriaeth sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd. Mae gweledigaeth glir, gytûn sy'n cael ei rhoi ar waith gan bob partner i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant sy'n ymarferwyr myfyriol ac sydd wedi'u llywio gan ymchwil.

Mae'r ddwy raglen wedi'u llunio'n dda i gefnogi myfyrwyr yn eu datblygiad i ddod yn ymarferwyr effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Mae ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi yn ategu at y profiadau dysgu cynyddol yn dda, sy'n datblygu addysgegau cyfnod a phynciol myfyrwyr.

Mae ymchwil ac ymholi yn ganolog i waith y bartneriaeth. Mae rhaglenni wedi'u gwreiddio mewn dealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n gwneud addysg gychwynnol athrawon dda, mae staff y bartneriaeth yn modelu arfer effeithiol o ran ymgysylltu ag ymchwil ac mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu eu medrau beirniadol yn dda. Caiff theori ac arfer eu cyfuno'n ofalus, sy'n sicrhau bod gweithgarwch ysgolheigaidd yn cael ei ystyried yn rhan annatod o ddatblygu addysgeg effeithiol.

O ganlyniad i brofiadau addysgu a dysgu llwyddiannus, mae myfyrwyr yn datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda dros gyfnod eu rhaglen. Gwna tua hanner y myfyrwyr gynnydd da iawn. Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu ystod eang o fedrau addysgu. Er bod gan lawer o fyfyrwyr fedrau da o ran cynllunio gwersi, nid yw lleiafrif o fyfyrwyr yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion.

Mae llawer o diwtoriaid yn addysgu ag arbenigedd a brwdfrydedd. Mae ganddynt ymagwedd gytûn at ddatblygu medrau meddwl beirniadol myfyrwyr ac maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgu a dysgu effeithiol. Yn ystod profiad ysgol, mae mentoriaid yn cefnogi lles myfyrwyr yn effeithiol, yn gyffredinol, ac yn yr achosion gorau, mae myfyrwyr yn cynnwys myfyrwyr yn dda mewn deialog broffesiynol ac yn eu helpu i wella'n gyflym. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o fentoriaid yn nodi meysydd myfyrwyr i'w gwella yn ddigon miniog ac nid ydynt yn eu helpu i ystyried effeithiolrwydd eu haddysgu yn ddigonol o ran cynnydd disgyblion.

Mae penderfyniad moesol cadarn, cyfathrebu effeithiol ac ymdeimlad cryf o gymuned yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi lles athrawon dan hyfforddiant. Mae natur gydberthnasol cynllunio rhaglenni yn effeithiol, cymorth targedig a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol yn sicrhau bod bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi. Maent yn datblygu ystod eang o fedrau a phriodoleddau proffesiynol sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu ar hyd eu gyrfa.

Er bod y bartneriaeth yn cryfhau ei hunanwerthuso ac yn datblygu gweithdrefnau adrodd defnyddiol a chyfleoedd gwerthfawr i gasglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol, mae arweinwyr y bartneriaeth wedi nodi gwendidau yn y prosesau hyn. Yn ogystal, dim ond megis dechrau cael ei datblygu y mae cydarweinyddiaeth, yn

benodol cynnwys ysgolion arweiniol mewn hunanwerthuso'r bartneriaeth, sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ei hadnoddau'n effeithiol gan ddefnyddio arbenigedd partneriaid mewn ysgolion yn llwyddiannus i gyfrannu at y rhaglenni a manteisio ar staff, cyfleusterau ac arloesiadau'r brifysgol i fod o fudd i ddysgu myfyrwyr. Mae'r bartneriaeth yn uchel ei pharch yn y brifysgol ac mae uwch arweinwyr y brifysgol yn hyrwyddo cyfnewid syniadau, technolegau ac arfer yn effeithiol rhwng addysg gychwynnol athrawon a'r brifysgol ehangach.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso, gan gynnwys datblygu cyfleoedd i bartneriaid mewn ysgolion chwarae rhan lawn mewn gwerthuso, sicrhau ansawdd a gyrru gwelliant

A2 Gwella cysondeb o ran ansawdd y mentora i sicrhau bod adborth yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'n ymarferwyr effeithiol yn yr ystafell ddosbarth

A3 Sicrhau bod y rhaglen yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu gallu i gynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion yn gynyddol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y bartneriaeth i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith yn ymwneud â:

- Chefnogaeth y bartneriaeth i les myfyrwyr
- Integreiddio ymchwil ac ymholi yn werthfawr drwy'r rhaglen

## Prif ganfyddiadau

**Dysgu:**

Ar y rhaglenni TAR Cynradd ac Uwchradd, gwna athrawon dan hyfforddiant gynnydd da tuag at ddod yn athrawon cymwysedig, cymwys. Gwna tua hanner y myfyrwyr gynnydd cryf. Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn teimlo y cânt eu paratoi'n dda i ddechrau eu gyrfa addysgu.

Ar hyd cyfnod eu rhaglen, mae bron pob un o'r myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut mae disgyblion yn dysgu ac o addysgegau pwnc a chyfnod effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am ofynion y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion maent yn eu haddysgu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n dda eu dealltwriaeth o sut y gellir addasu addysgu a dysgu ar gyfer oedrannau a galluoedd gwahanol.

At ei gilydd, mae gan fyfyrwyr fedrau cynllunio da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer cyfres o wersi, gan adeiladu'n gynyddol ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae llawer o fyfyrwyr yn nodi nodau dysgu clir ar gyfer eu disgyblion, er nad yw ychydig ohonynt yn manylu ar y dysgu bwriadedig yn ddigon clir. Mae llawer o fyfyrwyr yn dewis dulliau addysgu a dysgu priodol sy'n addas ar gyfer cynnwys y wers, y pwnc neu'r cyfnod ac yn helpu disgyblion i fodloni amcanion dymunol y wers. Mae llawer ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i brofiadau dysgu blaenorol disgyblion ac, yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, yn gwneud cysylltiadau perthnasol ar draws meysydd gwahanol y cwricwlwm, er enghraifft trwy gynllunio cysylltiadau rhwng dysgu am goedwigoedd glaw mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth ac astudiaethau celf disgyblion, pan fyddant yn archwilio gwaith Henri Rousseau ar ôl taith i sw trofannol dan do. Mae llawer o fyfyrwyr yn ystyried yn ofalus sut i greu profiadau dysgu dilys ar gyfer eu disgyblion i atgyfnerthu cysyniadau. Mae lleiafrif yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus yn ystod eu profiadau ysgol, er enghraifft wrth addysgu mathemateg, maent yn ystyried pwysigrwydd cymhareb a chyfran y cynhwysion mewn torth banana a goginiwyd gan ddisgyblion mewn gwers technoleg bwyd. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn cynllunio gwersi creadigol dros ben. Maent yn dylunio profiadau dysgu dychmygus i ddisgyblion, gan gynnig cyd-destunau cyfoethog a difyr ar gyfer dysgu, er enghraifft trwy ddatblygu eu gêm gyfrifiadurol eu hunain i gefnogi dealltwriaeth fathemategol disgyblion iau.

Yn yr ysgol, mae bron pob un o'r myfyrwyr yn meithrin perthnasoedd gwaith proffesiynol a phwrpasol â staff a disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt drefn glir yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio ystod addas o strategaethau rheoli yn llwyddiannus ac mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Maent yn frwdfrydig am eu pwnc neu faes arbenigedd ac mae llawer ohonynt yn meithrin y brwdfrydedd hwn ymysg eu disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cyfathrebu'n effeithiol. Maent yn fodelau iaith da ac yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u disgyblion. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau holi'n dda. Maent yn gofyn cydbwysedd priodol o gwestiynau agored a chaeedig. Mae mwyafrif ohonynt yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n profi dealltwriaeth disgyblion. Mae'r athrawon dan hyfforddiant hyn yn cynnwys disgyblion mewn sgyrsiau pwrpasol i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, mae

lleiafrif o fyfyrwyr yn defnyddio holi'n llai llwyddiannus. Nid ydynt yn rhoi digon o amser bob tro i'w disgyblion lunio eu hatebion neu esbonio eu meddyliau.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn magu hyder yn yr ystafell ddosbarth sy'n eu caniatáu i ymateb yn hyblyg i gynnydd disgyblion. Maent yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn dda i gefnogi disgyblion wrth eu gwaith, gan holi unigolion a grwpiau bach am eu dysgu ac i ddatblygu eu myfyrdodau. Maent yn mynd i'r afael â chamsyniadau yn nysgu disgyblion yn effeithiol ac yn amserol ac yn aml yn addasu eu gwersi yn dibynnu ar gynnydd disgyblion. Defnyddiant ystod eang o strategaethau effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion, gan gynnwys gwaith pâr a gwaith grŵp, tasgau ymarferol sydd wedi'u llunio'n dda a defnyddio adnoddau deniadol a symbylol. Mae profiadau dysgu cynlluniedig yn ddifyr, wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u hamseru'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw myfyrwyr yn sicrhau bod y rhediad a'r her yn y wers yn cyd-fynd yn ddigon da â dysgu disgyblion. Nid yw'r myfyrwyr hyn yn cynllunio gweithgareddau sy'n ddigon ymestynnol neu ddifyr neu nid ydynt yn darparu cyfleoedd digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mae llawer o fyfyrwyr yn cynllunio i fodloni anghenion amrywiol disgyblion yn dda; er enghraifft, maent yn cynllunio tasgau â her addas i ddisgyblion mwy abl neu'n cynnig cymorth defnyddiol i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, er eu bod yn nodi'r angen i gefnogi ystod o alluoedd disgyblion wrth gynllunio, nid yw ychydig o fyfyrwyr yn ystyried yn ddigon da sut i gynnig her briodol ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cynnal eu hymgysylltiad yn ddigonol bob tro neu'n gwneud digon o gynnydd. Yn ogystal, nid yw ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn sicrhau yr eir i'r afael ag ymddygiad gwael yn ddigon cyflym ac, yn yr achosion hyn, mae dysgu disgyblion yn gyfyngedig.

Mae gan lawer o athrawon dan hyfforddiant fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol da. Yn gyffredinol, maent yn deall pwysigrwydd datblygu medrau disgyblion. Mae ychydig o fyfyrwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft trwy ddefnyddio meddalwedd cyflwyno rhyngweithiol i gynnwys y dosbarth cyfan mewn dadl neu trwy greu pentref Celtaidd rhithiol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw eu gallu i gynllunio a chynorthwyo disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae gan lawer o fyfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf fedrau Cymraeg da iawn. Maent yn siarad yn hyderus ac yn ysgrifennu'n rhugl, gan dreiglo'n gywir ac ymestyn eu syniadau mewn brawddegau mwy cymhleth gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae bron pob un o'r myfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg yn gwneud cynnydd boddhaol. Fodd bynnag, er bod llawer o athrawon dan hyfforddiant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn addas, mae lleiafrif ohonynt yn colli cyfleoedd yn eu haddysgu i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Gwnânt ddefnydd cyfyngedig o'r iaith yn eu haddysgu.

Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda ar y rhaglen a addysgir. Gwnânt gysylltiadau meddylgar rhwng theori addysg a'r hyn y maent wedi'i weld yn yr ysgol a datblygiad eu harfer eu hunain. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o ymagweddau gwahanol at ddylunio cwricwlwm, sy'n eu helpu i fyfyrio ar sut gallent strwythuro dysgu'n llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn ennill amgyffrediad da o hanfodion cynllunio gwersi yn gynnar yn y rhaglen ac yn parhau i hogi ac archwilio'r medrau hyn yn ystod eu cyfnod ar y cwrs.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr o'r farn bod tasgau ac aseiniadau'r rhaglen wedi cefnogi eu haddysgu yn effeithiol. Mae llawer o fyfyrwyr yn arbennig o gydwybodol yn eu hastudiaethau ac yn darllen yn eang ac yn berthnasol i gwblhau tasgau'r rhaglen. Maent yn llunio asesiadau academaidd meddylgar sydd wedi'u cyflwyno'n dda ar ystod o feysydd astudio gwerthfawr sy'n cysylltu'n agos â'u cyfnod neu bwnc, gan ymchwilio i effeithiolrwydd dulliau addysgu penodol ar berfformiad disgyblion neu archwilio barnau disgyblion o ansawdd eu profiadau dysgu. Mewn llawer o achosion, mae myfyrwyr yn defnyddio eu hastudiaethau academaidd i fyfyrio ar eu dulliau addysgu eu hunain a'u datblygu. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio ystod eang o ddulliau ymchwil. Mae llawer ohonynt yn dewis y rhain â dealltwriaeth i ymgymryd â phrosiectau ymchwil gwerthfawr ar raddfa fach sy'n arwain at ganlyniadau addysgiadol a buddiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu:**

Mae bron pob un o'r myfyrwyr dan hyfforddiant yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymgysylltu ac yn chwilfrydig yn ystod seminarau a darlithoedd, gan arfer hunanddisgyblaeth a chanolbwyntio'n dda. Trwy gydol eu sesiynau a addysgir, mae athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu'n weithredol â thasgau a thrafodaethau, gan greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Trwy gydol y rhaglen, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu agweddau ac ymddygiad personol a phroffesiynol pwysig ar gyfer dysgu ar hyd eu gyrfa. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth gref o'r heriau a'r cyfleoedd cyfredol ym myd addysg, er enghraifft trwy ystyried sut gallai deallusrwydd artiffisial ddylanwadu ar gynllunio gwersi.

Mae llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal iechyd meddwl da ac yn gwneud defnydd effeithiol o ddarlithoedd a seminarau sy'n cefnogi eu lles. Er enghraifft, maent yn defnyddio 'dulliau wedi'u seilio ar senarios', fel archwilio sut i gyflawni cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd, meithrin gwydnwch a rhoi cynnig ar ddulliau o gydweithio â phobl eraill.

Lle bo'n briodol, mae athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio'r cymorth, cyngor ac arweiniad a roddir gan y brifysgol yn gadarnhaol i hyrwyddo a rheoli eu lles yn rhagweithiol, er enghraifft trwy fanteisio ar wasanaethau'r brifysgol i'w helpu â materion ariannol annisgwyl. Maent yn gwerthfawrogi cyfarfodydd rheolaidd â'u tiwtoriaid a'u mentoriaid i flaenoriaethu eu dysgu a rheoli eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cefnogi'n dda ac yn gwybod ble i fanteisio ar gyngor ac arweiniad yn y brifysgol ac ar leoliadau ysgol. Gwna llawer ohonynt ddefnydd da o gymorth arbenigol i'w helpu â materion personol. Maent yn meithrin perthnasoedd proffesiynol cryf a hynod effeithiol â mentoriaid a thiwtoriaid. Mae'r perthnasoedd hyn wedi'u seilio ar gyd-barch ac ymddiriedaeth sy'n creu diwylliant cydweithredol, gan gefnogi trafodaethau agored a ffurfiannol mewn seminarau a chyfarfodydd tiwtoriaid.

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn teimlo'n ddiogel ar y rhaglen a addysgir ac yn ystod lleoliadau. Maent yn deall y prosesau a'r gweithdrefnau diogelu mewn ysgolion ac yn y brifysgol. Maent yn ymgysylltu'n dda â seminarau a darlithoedd i ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol o degwch a chynhwysiant, gan gynnwys datblygu eu dealltwriaeth o sut i hybu llais y disgybl, er enghraifft trwy

weithdai ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chynnwys y dysgu hwn yn eu haddysgu eu hunain. Mae myfyrwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i adrodd ac uwchgyfeirio achosion o hiliaeth a sut i ddatblygu cwricwlwm sydd wedi'i seilio ar ddulliau gwrth-hiliaeth at addysgu a dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chyfleoedd a phrosesau i ddweud eu dweud am beth a sut maent yn dysgu. Mae llawer ohonynt yn gydwybodol wrth lenwi arolygon canol modiwl a mynychu grwpiau ffocws. Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn dda trwy gyfleoedd fel cyflwyno mewn cynadleddau a chymryd rhan mewn diwrnodau cyflwyno ymchwil gyda chynfyfyrwyr a staff addysgu eraill. Mae myfyrwyr-gynrychiolwyr yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad y rhaglen, er enghraifft trwy gyfrannu at fforymau'r bartneriaeth a grwpiau ymgynghorol. Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau cymunedol yn y bartneriaeth i hybu eu lles, fel cynllunio parti Nadolig i staff a myfyrwyr.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dangos ymrwymiad proffesiynol cryf i ofyn am gyngor a chymorth a gweithredu arnynt. Maent yn cydweithio'n dda â'u cymheiriaid a gweithwyr proffesiynol eraill ac yn ymrwymo i ddysgu oddi wrth bobl eraill a gyda nhw.

Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn gwerthuso eu gwersi eu hunain yn rheolaidd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae llawer ohonynt yn briodol o ddadansoddol yn eu gwerthusiadau ac yn cyfleu eu cynnydd a'u targedau ar gyfer gwella yn dda. Gwnânt gysylltiadau meddylgar â'u darllen wrth fyfyrio ar eu profiad ysgol, er enghraifft wrth archwilio strategaethau ynghylch sut orau i gefnogi disgyblion mwy abl. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae myfyrdodau myfyrwyr yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth mewn perthynas â'u dulliau addysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan diwtoriaid y brifysgol i ddod o hyd i atebion i broblemau trwy ymchwil. Maent yn mynd ati'n dda i ddatblygu eu medrau ymchwil ac yn deall a gwerthfawrogi'r cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Un o gryfderau nodedig y bartneriaeth yw'r gynhadledd ymchwil, lle mae athrawon dan hyfforddiant yn rhannu eu prosiectau ymchwil yn effeithiol â chynulleidfa eang.

Yn ystod profiad ysgol, mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn cydweithio'n effeithiol ag uwch fentoriaid a mentoriaid i weithredu ar adborth yn brydlon. Maent yn ymgysylltu'n weithredol â sgyrsiau anogaeth i gefnogi eu datblygiad ehangach. Mae athrawon dan hyfforddiant yn dangos trugaredd ac empathi wrth iddynt ymgymryd â'u profiad ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn gweithio'n dda â'u cydweithwyr yn yr ysgol ac i gyfrannu at brofiadau ehangach disgyblion, er enghraifft trwy fynd ar deithiau preswyl neu gynnal clybiau allgyrsiol.

Mae presenoldeb ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn is na'r disgwyl yn y brifysgol. Fodd bynnag, mae athrawon dan hyfforddiant yn manteisio ar gymorth arbenigol priodol gan y brifysgol yn effeithiol, lle bo'n briodol, i'w cynorthwyo i wella eu presenoldeb, er enghraifft pan fu profedigaeth yn y teulu. Mae gan bron pob un o'r

athrawon dan hyfforddiant agwedd gadarnhaol at eu profiad ysgol ac maent yn mynychu'r elfen hon o'u rhaglen yn dda.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:**

Mae'r ddwy raglen TAR yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o beth mae'n ei olygu i fod yn athro yng Nghymru a bodloni safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn llwyddiannus. Mae'r rhaglenni wedi'u tanategu'n gadarn gan fframwaith cryf a thra ystyriol sy'n pwysleisio'r cysylltiadau rhwng theori, ymchwil ac arfer ac sy'n hybu myfyrio'n feirniadol.

Mae'r ddwy raglen wedi cael eu llunio'n dda. Mae pob cwricwlwm yn integreiddio elfennau allweddol o ddylunio cwricwlwm, damcaniaethau dysgu a dulliau addysgu ac asesu effeithiol yn gydlynus. Mae modiwlau'n adeiladu'n gynyddol ar wybodaeth myfyrwyr, gan gefnogi eu datblygiad o ran cynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion a'u dealltwriaeth o addysgegau pwnc-benodol a chyfnod-benodol. Mae cryfderau penodol y rhaglen yn cynnwys cysylltu elfennau damcaniaethol ac ymarferol yn llwyddiannus, fel bod myfyrwyr yn datblygu medrau ymchwil sy'n berthnasol i'w harfer yn yr ystafell ddosbarth, a meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o gyd-destun addysgol Cymru. Mae arweinwyr yn chwilio am gyfleoedd i arloesi, er enghraifft trwy ddatblygu profiadau dysgu creadigol ac effeithiol, fel yr ystafelloedd dosbarth arsylwi sy'n meithrin meddwl yn feirniadol ac arfer fyfyriol i fyfyrwyr ar y rhaglen gynradd.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan fyfyrwyr, gan addasu amseriad profiadau dysgu pwysig fel rheoli ymddygiad a chynllunio gwersi i baratoi myfyrwyr yn well ar gyfer eu profiad cyntaf yn yr ysgol.

Mae'r rhaglenni'n integreiddio elfennau wedi'u haddysgu â phrofiadau ymarferol yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ddiwrnodau Arfer a Theori sydd wedi'u trefnu'n strategol. Mae staff ysgolion a'r brifysgol yn dylunio ac yn cyflwyno'r profiadau dysgu hyn ar y cyd i alluogi myfyrwyr i archwilio agweddau ar ymchwil mewn cyd-destun ymarferol. Mae diwrnodau Arfer a Theori yn caniatáu i ddisgyblion rannu profiadau a chymhwyso mewnwelediadau newydd i wella eu dealltwriaeth o ystod o ddulliau addysgu a materion ysgol gyfan, fel asesu effeithiol a rheoli ymddygiad. Mae'r brifysgol yn defnyddio adborth gan fyfyrwyr a staff yn dda i wella ansawdd y profiadau dysgu hyn.

Mae aseiniadau a phrosiectau ymchwil yn cysylltu theori ag arfer yn gadarn ac yn datblygu myfyrwyr yn effeithiol fel ymarferwyr myfyriol, gan gefnogi datblygiad eu medrau beirniadol yn dda. Caiff aseiniadau eu cynllunio'n feddylgar, gan helpu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau addysgu mewn modd amserol ac ystyried eu dysgu yn sgil eu harfer eu hunain. Mae myfyrwyr yn elwa ar ystod o gyfleoedd tra ystyriol i archwilio cysylltiadau ystyrlon rhwng ymchwil ac arfer yn yr ystafell ddosbarth, fel rhannu eu barn ar ymchwil mewn sgwrs ar-lein â myfyrwyr o Brifysgol Warsaw neu ymgysylltu â staff ysgolion y bartneriaeth mewn sesiynau sy'n arddangos sut mae eu hymholi ysgolheigaidd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gwaith yn yr ysgol.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol personol myfyrwyr yn addas ac yn cynnwys gweithdai targedig a chymorth cymheiriaid. Mae'r brifysgol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau Cymraeg, gan gynnwys archwiliad o fedrau Cymraeg sy'n arwain at sesiynau wedi'u haddysgu sy'n targedu

anghenion unigol myfyrwyr. Mae'r brifysgol yn cynnwys profiadau dysgu gwerthfawr i fyfyrwyr ymarfer eu Cymraeg mewn lleoliadau anffurfiol, fel y Clwb Cinio i fyfyrwyr cynradd ac Eisteddfod y brifysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cyfleoedd dysgu i sicrhau bod myfyrwyr yn defnyddio eu dealltwriaeth i gynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion yn gynyddol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ddwy raglen wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn cyd-destun Cymreig. Mae ffocws y rhaglenni ar ddiwylliant, amgylchedd, economi a hanes Cymru yn cynnig dealltwriaeth ddyfnach i fyfyrwyr, y maent yn ei defnyddio'n effeithiol yn eu haseiniadau academaidd ac yn eu haddysgu eu hunain.

Mae'r bartneriaeth yn darparu profiadau ysgol wedi'u cynllunio'n dda i bob myfyriwr. Caiff myfyrwyr brofiad o ddau gyfnod oedran olynol, sy'n cynorthwyo eu dealltwriaeth gynhwysfawr o addysgu ar draws cyfnodau datblygiadol gwahanol. Mae sgyrsiau myfyriol cynlluniedig â chymheiriaid, tiwtoriaid a mentoriaid yn cefnogi'r daith tuag at SAC, gan ddarparu amgylchedd cydweithredol ar gyfer datblygu'n broffesiynol.

Mae gan y bartneriaeth systemau addas ar waith i sicrhau bod myfyrwyr yn pontio'n rhwydd o un lleoliad ysgol i'r llall. Mae 'sgyrsiau dysgu' a chyfleoedd strwythuredig i fyfyrio ar gynnydd a chynllunio ar gyfer y profiad ysgol nesaf yn effeithiol o ran sicrhau bod gan fentoriaid ddealltwriaeth fanwl o'u myfyrwyr ac y caiff cymorth priodol ei roi ar waith i fodloni eu hanghenion.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ennill cymwysterau ychwanegol defnyddiol sy'n berthnasol i'w haddysgu, er enghraifft trwy raglenni gweithdai dylunio a thechnoleg neu Iaith Arwyddion Prydain. Mae myfyrwyr y TAR cynradd yn ymgymryd â chwrs y Brifysgol Agored mewn 'Datblygu Darllen er Pleser', sy'n eu cefnogi'n dda i ddatblygu dulliau i ennyn diddordeb disgyblion mewn darllen.

Mae ystod eang o weithgareddau cyfoethogi yn ehangu profiadau myfyrwyr, gan gynnwys deall ac addysgu hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+ trwy'r Gynhadledd Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae rhaglenni wedi'u llunio i fanteisio i'r eithaf ar siaradwyr ymweliadol, cyn-fyfyrwyr ac arbenigedd gan staff y brifysgol ehangach i gynnig ehangder gwerthfawr i'r rhaglenni. Mae'r rhaglenni hefyd yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ddysgu mewn cyd-destunau gwahanol, fel defnyddio Canolfan yr Aifft y brifysgol i archwilio addysg mewn amgueddfeydd neu edrych ar ymagweddau effeithiol at agweddau disgyblion at ddysgu trwy weithio mewn clwb pêl-droed lleol.

Mae gan y bartneriaeth athroniaeth glir wedi'i llywio gan ymchwil ar gyfer addysgu ar ei rhaglenni. Mae'n egluro nodweddion addysgeg effeithiol mewn addysg gychwynnol athrawon (AGA) ac mae hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno sesiynau o ansawdd uchel sy'n cael eu haddysgu yn y brifysgol.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid, uwch fentoriaid a mentoriaid yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â'u hathrawon dan hyfforddiant. Maent yn gefnogol ac yn ymateb yn dda i anghenion myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys meithrin eu lles a datblygu ymagweddau proffesiynol athrawon dan hyfforddiant o ran beth mae'n ei olygu i fod yn athro yng Nghymru.

Mae gan lawer o diwtoriaid a staff addysgu'r brifysgol ddisgwyliadau uchel o athrawon dan hyfforddiant. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth gadarn o addysgegau AGA. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu mewn sesiynau sy'n cael eu haddysgu yn y brifysgol, y mae myfyrwyr yn efelychu llawer ohonynt yn eu haddysgu eu hunain. Er enghraifft, maent yn hybu meddwl yn feirniadol yn arbennig o dda, maent yn defnyddio holi'n effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant drafod a rhannu eu syniadau mewn parau a grwpiau bach. Mae tiwtoriaid yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol trwy addysgu mewn tîm, sy'n modelu'n effeithiol i fyfyrwyr werth myfyrio ar eu harfer yn feirniadol ac yn gydweithredol. Mae tiwtoriaid yn cyfrannu'n gyfunol at gynnig arweiniad ar fethodoleg ymchwil, gan gefnogi ei gilydd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr. Gwna llawer ohonynt gysylltiadau perthnasol a gwerthfawr â'u hymchwil eu hunain i ategu gwybodaeth myfyrwyr, gan gyfeirio at adnoddau cyfredol a modelu arfer dda mewn dysgu proffesiynol.

Mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cefnogi myfyrwyr yn effeithiol wrth iddynt ymgymryd â'u prosiectau ymchwil, sy'n galluogi myfyrwyr i gysylltu theori addysgol yn bwrpasol â'u harfer. Mae tiwtoriaid yn rhoi adborth manwl a defnyddiol i fyfyrwyr ar eu haseiniadau ysgrifenedig. Rhoddant werth uchel ar sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o ddulliau ymchwil, ond nid ar draul eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrannu at addysgu effeithiol. Mae prosesau cymedroli'r brifysgol ar gyfer asesu cynnydd myfyrwyr yn deg ac yn gadarn.

Mae uwch fentoriaid a mentoriaid yn rhoi adborth llafar rheolaidd a phriodol i'w myfyrwyr ar ôl arsylwi gwersi ac yn ystod cyfarfodydd dal-i-fyny wythnosol. Yn gyffredinol, mae adborth mentoriaid yn effeithiol o ran nodi'r prif feysydd i'w gwella yn addysgu'r myfyrwyr. Fodd bynnag, mae ansawdd y mentora yn rhy amrywiol. Er enghraifft, nid yw lleiafrif o fentoriaid yn cefnogi myfyrwyr yn ddigon da i ddatblygu agweddau ar eu cynllunio, fel bodloni anghenion pob disgybl neu ddatblygu medrau disgyblion. Nid yw'r mentoriaid hyn yn helpu myfyrwyr i ystyried effeithiolrwydd eu haddysgu a'u cynllunio yn ddigon da nac i greu cysylltiadau ag ymchwil addysgol berthnasol. Lle mae arfer ar ei gorau, mae mentoriaid yn cynnwys myfyrwyr mewn sgyrsiau proffesiynol effeithiol sy'n eu cefnogi'n dda i fyfyrio'n feirniadol er mwyn nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Strategaeth arbennig o ddefnyddiol i gefnogi cynnydd a dealltwriaeth myfyrwyr yw defnyddio 'seibiau', pan fydd mentoriaid yn cynnig ymyriadau amserol yn ystod gwersi i gynnwys myfyrwyr mewn deialog broffesiynol. Mae hyn yn hynod effeithiol o ran cynnig adborth uniongyrchol i fyfyrwyr yn y fan a'r lle i wella ansawdd eu haddysgu a dysgu.

Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig tiwtoriaid a mentoriaid yn ddefnyddiol o ran rhoi gwerthusiad i fyfyrwyr o'r cynnydd y maent yn ei wneud yn erbyn eu targedau unigol a'r safonau ar gyfer SAC. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r targedau sy'n cael eu pennu yn ddigon penodol i alluogi myfyrwyr i ddatblygu meysydd allweddol o'u haddysgu. Ar ben hynny, nid yw lleiafrif o fentoriaid yn cefnogi disgyblion yn ddigon penodol i fodloni eu targedau ar gyfer gwella, er enghraifft o ran datblygu eu medrau holi neu datblygu eu rheolaeth o'r ystafell ddosbarth. Yn yr achosion hyn, nid yw myfyrwyr yn gwneud digon o gynnydd mewn agweddau pwysig ar eu harfer.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

Mae arweinwyr, tiwtoriaid a mentoriaid yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol ac yn gydlynus ar draws y bartneriaeth i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn dda. Mae'r ddwy raglen yn cynnig cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i fyfyrwyr ddatblygu'r ymarweddiadau, gwerthoedd a'r ymddygiad sydd eu hangen i lwyddo yn eu rolau addysgu yn y dyfodol. Mae perthnasoedd gwaith cryf rhwng athrawon dan hyfforddiant, tiwtoriaid y brifysgol a staff mewn ysgolion yn un o gryfderau nodedig y bartneriaeth. Mae tiwtoriaid y brifysgol yn cynnig cymorth a chyngor gwerthfawr, gan gefnogi lles a chynnydd academaidd myfyrwyr drwy gydol y rhaglen. Mae'n hawdd mynd atynt ac maent yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon a allai fod gan athrawon dan hyfforddiant. Caiff y lefel hon o gymorth ei gwerthfawrogi'n fawr gan bron pob un o'r myfyrwyr.

O ddechrau'r cwrs, caiff myfyrwyr eu hannog i gydweithio'n effeithiol â phobl eraill. Mae cyfleoedd gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant gydweithio, o fewn eu cyfnodau, pynciau ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad wrth iddynt greu cysylltiadau rhwng eu hastudiaethau a'u profiadau ysgol. Mae tiwtoriaid yn modelu cydweithio effeithiol, er enghraifft trwy strategaethau gwerthfawr ar gyfer addysgu fel tîm a chaiff athrawon dan hyfforddiant gyfleoedd defnyddiol i addysgu fel tîm â staff mewn ysgolion wrth iddynt ddechrau eu profiadau ysgol. Mae cyfleoedd addas i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth, fel trwy gynrychiolaeth ar grwpiau ymgynghorol y bartneriaeth a chyflwyno mewn cynadleddau.

Mae gweledigaeth y bartneriaeth i ddatblygu ymarferwyr myfyriol wedi'u llywio gan ymchwil wedi'i wreiddio ar draws y rhaglen. Caiff athrawon dan hyfforddiant nifer o gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso a datblygu eu medrau ymchwil. Mae sesiynau seminar y Ganolfan Ymchwil i Ymarfer (CRIP) yn cynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ymgysylltu'n feddylgar ag ymchwil o ddisgyblaethau eraill i gefnogi eu hymholi eu hunain.

Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd cryf i athrawon dan hyfforddiant fyfyrio'n ddwfn ar sut mae eu harfer eu hunain yn elwa o'u hymgysylltiad â theori. Mae'r rhaglen yn cefnogi myfyrwyr yn llawn i ddod yn ymarferwyr myfyriol trwy eu modiwlau academaidd, y diwrnodau Arfer a Theori a chyfleoedd niferus i gydweithio'n bwrpasol â'u cymheiriaid. Mae hyn yn helpu myfyrwyr dan hyfforddiant i gymryd rhan mewn sgyrsiau cyfoethog ac ystyrlon yn ymwneud ag ymchwil ac ymholi sy'n annog bron pob un o'r myfyrwyr i ymgymryd â myfyrio o ansawdd uchel. Er enghraifft, maent yn ystyried effeithiolrwydd yr arfer y maent wedi gweld yn eu profiadau ysgol eu hunain mewn modd teg, sensitif a gydag hygrededd ac mae hyn yn eu helpu i fireinio eu haddysgu eu hunain.

Mae'r gynhadledd ymchwil flynyddol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bron pob un o'r myfyrwyr ymgysylltu â'r bartneriaeth ac ystyried sut mae eu hymchwil eu hunain yn cefnogi dysgu a chynnydd disgyblion. Mae'r digwyddiad hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant ddeall pwysigrwydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Mae hyn yn un o gryfderau nodedig y rhaglen.

Drwy gydol y rhaglen, mae myfyrwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o'r diwylliannau a'r cymunedau maent yn gweithio ynddynt. Er enghraifft, mae'r diwrnod Arfer a Theori tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn canolbwyntio'n bwrpasol ar effaith tlodi ar

gyflawniad addysgol. Mae tiwtoriaid yn manteisio ar arbenigedd asiantaethau allanol, fel Gweithredu dros Blant, i gynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r rhaglen. Mae myfyrwyr hefyd yn elwa ar ddyfnhau eu dealltwriaeth o natur amrywiol Cymru trwy sesiynau ystyrlon ar ddysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL).

Mae mentoriaid a thiwtoriaid yn cynnig cymorth gwerthfawr wedi'i deilwra i fyfyrwyr pan fyddant yn cwblhau eu Pasbortau Dysgu Proffesiynol ac yn dechrau paratoi i ymsefydlu fel athrawon newydd gymhwyso. Caiff myfyrwyr eu hannog i ymgysylltu â gwasanaeth cyflogadwyedd y brifysgol hefyd, sy'n cynnig cymorth gwerthfawr i fanteisio ar fyd gwaith a chyfleoedd i astudio ymhellach. Mae prosesau addas i fyfyrwyr archwilio eu medrau personol a nodi unrhyw ddiffygion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Caiff myfyrwyr eu hannog i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain trwy fanteisio ar adnoddau ar-lein a sesiynau galw heibio defnyddiol, a ddarperir gan diwtoriaid a chymheiriaid, i wella eu medrau personol.

Mae tiwtoriaid y brifysgol yn adnabod eu myfyrwyr yn arbennig o dda ac yn gweithio'n rhagweithiol â mentoriaid i adnabod unrhyw fyfyrwyr y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar. Mae tiwtoriaid yn canolbwyntio ar les myfyrwyr a'r cynnydd y maent yn ei wneud ar draws y rhaglen ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yma yn briodol i ddyrannu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i gefnogi disgyblion sydd â phresenoldeb gwael, cyn i hyn sbarduno ymyrraeth ffurfiol, yn gyson. Ar hyn o bryd, mae arweinwyr yn treialu prosesau mwy cadarn sydd wedi'u llunio i wella presenoldeb, ond dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn. Caiff proses cymorth ac ymyrraeth ffurfiol y brifysgol ei defnyddio'n dda, yn ôl yr angen, i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu sefyllfaoedd arbennig o heriol. Mae cynlluniau peri pryder yn cynnwys camau gweithredu a thargedau defnyddiol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd dilynol.

Mae'r bartneriaeth yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau ehangach y brifysgol i gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau a nodwyd. Er enghraifft, mae swyddfa anabledd y brifysgol yn cynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol i diwtoriaid ynghylch pa addasiadau rhesymol y mae angen eu rhoi ar waith i gefnogi anghenion athrawon dan hyfforddiant yn ystod eu profiadau ysgol. Mae staff y bartneriaeth yn gweithio ar y cyd â myfyrwyr i sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth y mae angen ei rhannu ag ysgolion sy'n cynnig lleoliadau ei rhannu mewn modd sensitif a phriodol.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn gadarn ac nid ydynt yn peri pryder. Mae sesiynau defnyddiol gan y brifysgol ar ddiogelu, sy'n sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu rôl o ran cadw pobl ifanc yn ddiogel ac mae myfyrwyr yn ymgymryd â hyfforddiant defnyddiol i helpu amddiffyn disgyblion rhag peryglon radicaleiddio. Mae uwch fentoriaid yn sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu ysgolion trwy broses ymsefydlu ar ddechrau pob profiad ysgol. Mae Diwrnodau Arfer a Theori yn helpu myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r diwylliant diogelu ehangach mewn ysgolion. Er enghraifft, maent yn elwa ar sesiynau defnyddiol am waith arweinwyr bugeiliol mewn ysgolion a sut i gadw eu hunain yn ddiogel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Er bod y bartneriaeth yn gymharol newydd a bod y rhaglen TAR uwchradd wedi'i hachredu yn 2020, wedi'i dilyn gan ddechrau'r rhaglen gynradd yn 2022, mae Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe wedi'i thanategu'n gadarn gan lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithio. Mae'r weledigaeth ar gyfer AGA yn glir ac yn cael ei deall yn dda, ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau addysgol cenedlaethol yn glir. Caiff arweinwyr y bartneriaeth eu cefnogi'n dda gan uwch arweinwyr ar draws y brifysgol, gan gynnwys yr Is-ganghellor a thîm arweinyddiaeth y gyfadran. Yn benodol, mae uwch arweinwyr y brifysgol yn cynnig cymorth cryf i ddatblygu ymagweddau arloesol i wella profiadau a deilliannau myfyrwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio technoleg ymgolli i gynorthwyo i ddatblygu mentora a gwella prosesau dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn uchel ei pharch ar draws y brifysgol ehangach a chaiff arbenigedd staff y bartneriaeth ei rannu'n fuddiol ar draws ysgol y gwyddorau cymdeithasol, cyfadran y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ac yn ehangach. Er enghraifft, mae defnydd dychmygus o'r ystafell ddosbarth arsylwi yn cynorthwyo meysydd arall y brifysgol i ddatblygu eu medrau adborth ffurfiannol. Yn ogystal, mae arweinydd addysg ysgolion y brifysgol wedi rhannu arfer effeithiol a chyfadrannau eraill yn y brifysgol, fel eu hymagwedd at adolygu cymheiriaid. Yn yr un modd, mae arbenigedd mewn deallusrwydd artiffisial ar draws y brifysgol wedi helpu athrawon dan hyfforddiant yn benodol i ddeall a datblygu defnydd priodol o offerynnau digidol.

Ym mis Tachwedd 2023, crëwyd uwch dîm arwain newydd ar gyfer AGA, gan gynnwys Cyfarwyddwr AGA newydd-benodedig. Mae'r tîm hwn yn cynnig arweinyddiaeth glir ac ymatebol. Mae arweinwyr yn uchelgeisiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a phobl eraill, gan fodelu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn effeithiol. Mae penderfyniadau a wneir gan y bartneriaeth wedi'u seilio ar y budd a gânt i ddeilliannau a phrofiadau myfyrwyr. Er enghraifft, mae arweinwyr y bartneriaeth yn cymryd eu cyfrifoldeb moesol i wario'r gyllideb yn ofalus o ddifrif, er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael y gwerth gorau am eu harian.

Mae'r bartneriaeth wedi'i seilio ar fframwaith cysyniadol clir sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd ac mae staff yn y bartneriaeth yn wybodus ac yn frwdfrydig. Maent yn ymrwymo i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael addysg o'r ansawdd gorau posibl i'w galluogi i wneud cynnydd tuag at y safonau athrawon a dod yn ddysgwyr gydol oes ac yn athrawon llwyddiannus.

Mae gwaith y bartneriaeth yn cyd-fynd yn gadarn â'r blaenoriaethau cyfredol ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae hybu tegwch ac amrywiaeth wedi'i ymwreiddio'n dda yn ei rhaglenni a'i harfer. Fel rhan o genhadaeth y brifysgol i gefnogi'r strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, mae uwch arweinwyr y bartneriaeth wedi datblygu cynllun clir i gefnogi athrawon dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu medrau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae cyfathrebu ar draws y bartneriaeth yn glir ac yn cael ei werthfawrogi gan yr holl randdeiliaid. O ganlyniad, mae aelodau'r bartneriaeth yn deall eu rolau eu hunain a rolau pobl eraill o ran cyfrannu at weledigaeth y bartneriaeth. Mae cyfathrebu rhwng

y brifysgol ac ysgolion i gefnogi lles athrawon dan hyfforddiant yn gryfder penodol. Ar ben hynny, mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y bwletin wythnosol yn ddefnyddiol i'r holl randdeiliaid o ran sefydlu a chynnal arferion gweithio effeithiol. Mae ysgolion o'r farn bod prosesau a systemau'r bartneriaeth ar gyfer yr agweddau o'r rhaglen sydd wedi'u seilio mewn ysgolion yn hylaw ac yn hawdd eu dilyn. Mae hyn yn cefnogi glynu at ofynion y bartneriaeth, er enghraifft mentoriaid yn cwblhau adolygiadau wythnosol o gynnydd athrawon dan hyfforddiant.

Mae gan y bartneriaeth fodel o gydarweinyddiaeth sydd â chydbwysedd priodol ac sy'n cael ei werthfawrogi, lle mae staff ysgolion a'r brifysgol yn gwerthfawrogi'r arbenigedd a ddaw gan y naill a'r llall. Mae AGA wrth wraidd gwaith y partneriaid ysgol. Caiff y bwrdd strategol a fforwm y bartneriaeth eu cyd-gadeirio'n fuddiol gan arweinwyr y brifysgol ac ysgolion. Caiff eu swyddogaeth ei rhannu'n addas rhwng cynllunio strategol a materion gweithredol. Mae gan ysgolion partner arweiniol ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau strategol y bartneriaeth ac maent yn cyfrannu'n dda at drefniadau llywodraethu, er enghraifft fel aelodau o fforwm y bartneriaeth. Mae'r prosesau ar gyfer dethol a dad-ddethol ysgolion yn gynhwysfawr a chaiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n dda. Mae gan arweinwyr yn y bartneriaeth ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i sefyllfa ariannol bresennol ac maent yn canolbwyntio'n ofalus ar effaith eu penderfyniadau gwariant ar ansawdd y ddarpariaeth a phrofiadau myfyrwyr. Mae cynllunio wrth gefn ar gyfer cynaliadwyedd y bartneriaeth yn glir a chynhwysfawr. Caiff cyllid ei dargedu'n dda ar gyfer y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf. Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod y bartneriaeth yn cydweithio'n llwyddiannus â gwasanaethau addysg rhanbarthol ac asiantaethau eraill i feithrin gallu yn ei hysgolion arweiniol a'i hysgolion rhwydwaith, yn ogystal â'i staff ei hun, yn enwedig trwy ei strategaeth ymchwil arloesol.

Mae gan y bartneriaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu ymagwedd systematig a chydweithredol at hunanwerthuso. Mae'r Cyfarwyddwr sydd newydd ei benodi a'r uwch dîm wedi cyflwyno prosesau cydlynol a chadarn addas i gynorthwyo'r bartneriaeth i adolygu ei gwaith, er mai megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r rhain. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi nodi blaenoriaethau strategol tymor hir perthnasol sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r cyd-destun cenedlaethol a lleol ar gyfer AGA ac addysg yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u gwreiddio'n gadarn yn nod y bartneriaeth i ddatblygu ymarferwyr myfyriol sydd wedi'u llywio gan ymchwil.

Er mwyn gwerthuso ei darpariaeth, mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o ffynonellau defnyddiol, fel arolygon modiwlau a lleoliadau, adroddiadau arholwyr allanol, adolygiadau mewnol y brifysgol ac adborth gan randdeiliaid. Gwna athrawon dan hyfforddiant gyfraniad amlwg at ddatblygiad parhaus eu rhaglenni, er enghraifft trwy gynrychiolaeth ar fforwm y bartneriaeth a thrwy roi adborth ar eu barn am ansawdd y rhaglen. Er bod ysgolion partner arweiniol yn ystyried AGA yn un o'u cyfrifoldebau craidd, nid ydynt yn chwarae rôl lawn mewn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth neu sbarduno gwelliant ar hyn o bryd. Mae cyfleoedd iddynt gyfrannu at hunanwerthuso i nodi cryfderau a gwendidau'r rhaglenni yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr y brifysgol yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol yn dda i adolygu ansawdd profiadau dysgu myfyrwyr. Er enghraifft, mae cyfarwyddwyr y rhaglenni'n cynnal 'teithiau dysgu' i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar y rhaglen a addysgir, gan roi ystyriaeth dda i feysydd i'w gwella sy'n cael eu codi trwy weithgareddau arsylwi cymheiriaid cefnogol. Mae arweinwyr ysgolion, yn rhinwedd

eu rôl fel cadeiryddion pwyllgorau'r bartneriaeth, yn dechrau cyfrannu'n fuddiol at y broses hon. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau sicrhau ansawdd y bartneriaeth, gan gynnwys safoni cynnydd a dysgu athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol, yn cael eu cymhwyso'n ddigon cyson na thrylwyr. Er enghraifft, mae diben, ffocws a defnyddioldeb staff y bartneriaeth wrth arsylwi myfyrwyr ar y cyd yn amrywio gormod rhwng ysgolion a rhwydweithiau. Er mai dim ond megis dechrau y mae defnydd uwch arweinwyr o dystiolaeth uniongyrchol i ddilysu effeithiolrwydd mentora, mae hyn wedi'i flaenoriaethu'n faes i'w wella.

Mae tiwtoriaid uwchradd ac arweinwyr modiwlau cynradd yn dadansoddi data sy'n ymwneud â'u meysydd cyfrifoldeb i nodi materion sy'n dod i'r amlwg ym mherfformiad academaidd athrawon dan hyfforddiant. Maent yn dod â lefel uchel o arbenigedd i'w rolau sydd wedi arwain at ddarpariaeth ac arfer effeithiol, yn enwedig yn y rhaglen a addysgir. Maent yn addasu eu dulliau neu'n cryfhau darpariaeth modiwlau yn ystod y flwyddyn i gefnogi cynnydd myfyrwyr yn well. Mae cynllunio gweithredol ar lefel y rhaglenni yn cysylltu'n briodol â phrif flaenoriaethau y bartneriaeth. Mae amserlenni'n realistig ac mae arweinwyr yn dosbarthu cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau gwelliannau yn briodol.

Mae'r bartneriaeth yn gwerthuso cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at SAC yn briodol. Er bod y bartneriaeth yn monitro cynnydd myfyrwyr tuag at fodloni safonau SAC yn ofalus, mae ei gwybodaeth am gynnydd athrawon dan hyfforddiant mewn agweddau, fel eu medrau cynllunio, eu gallu i addysgu'n effeithiol i ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd disgyblion a pha mor dda maent yn asesu medrau disgyblion, yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, nid yw'r bartneriaeth yn nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth neu arfer llai effeithiol bob tro. Cydnabuwyd hyn gan arweinwyr y bartneriaeth ac mae cynlluniau clir i wella'r agwedd hon ar ei gwaith.

Mae gan y Cyfarwyddwr AGA ddisgwyliadau eithriadol o uchel ar gyfer arfer broffesiynol tiwtoriaid. Mae'n sicrhau bod timau'r rhaglen yn cael adborth datblygiadol manwl gywir i gefnogi gwelliannau i ansawdd yr addysgu. Mae hyn yn helpu, er enghraifft, i sicrhau bod dulliau addysgu yn cefnogi myfyrwyr yn dda i ymgysylltu'n llwyddiannus â theori ac arfer. Ers ei benodi, mae'r bartneriaeth yn dechrau ystyried diben pob un o'i gweithgareddau hunanwerthuso a sut y gallai'r rhain ei galluogi'n well i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod yr angen i gyfosod canfyddiadau o'i gweithgareddau monitro niferus i gefnogi'r bwrdd strategol i fyfyrio'n feirniadol ar ei gynnydd a'i helpu i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n sbarduno gwelliant.

Ar draws y bartneriaeth, mae arweinwyr wedi creu diwylliant cryf o ymchwil sy'n rhan annatod o weledigaeth y rhaglenni. Mae yna gred gadarn, gytûn y bydd adeiladu cymuned ysgolheigaidd gynhwysol o fudd i'r proffesiwn addysgu ac ansawdd dysgu i bobl ifanc. Caiff ymchwil ei defnyddio'n effeithiol i lywio dyluniad a diwygiad parhaus y rhaglenni a'u cynnwys.

Caiff anghenion dysgu proffesiynol holl staff y brifysgol eu nodi'n dda fel rhan o'u pecyn dysgu proffesiynol. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i ddod yn ymchwilwyr gweithredol, beth bynnag fo'u rôl. Caiff tiwtoriaid gymorth ymarferol i'w galluogi i gwblhau ymchwil, gan gynnwys lleihau eu llwyth gwaith addysgu neu weinyddol. O ganlyniad, mae tiwtoriaid wedi llunio ymchwil werthfawr ar ystod eang o bynciau sy'n berthnasol i'w harfer, gan gynnwys datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr cyfrwng

Cymraeg, manteision cŵn lles i ddisgyblion mewn ysgolion, a heriau defnyddio'r ystafell ddosbarth arsylwi. Maent yn rhannu eu hymholiadau'n fuddiol â'u cydweithwyr a myfyrwyr trwy gyflwyniadau a chrynodebau ymchwil. Maent hefyd yn cyfrannu'n dda at rannu arfer dda yn ehangach ar draws y brifysgol, er enghraifft trwy sesiynau ar-lein i rannu a thrafod enghreifftiau effeithiol o gasglu adborth gan athrawon dan hyfforddiant a gweithredu arno. Mae llawer o diwtoriaid yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaethau eraill, gan gynnwys rhwydweithiau ymchwil cydweithredol cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd addas i fentoriaid mewn ysgolion gael dysgu proffesiynol i ddatblygu eu rolau. Mae tiwtoriaid y brifysgol yn modelu arfer yn gefnogol, gan ddarparu enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig a llafar i fyfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw pob mentor yn mynychu digwyddiadau datblygu mentoriaid yn ddigon rheolaidd ac, er gwaethaf ymdrechion gan y bartneriaeth i ddarparu adnoddau ar-lein, nid yw'r lleiafrif o fentoriaid yn datblygu eu medrau'n ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Ar ben hynny, ar hyn o bryd, mae datblygu mentoriaid yn canolbwyntio'n ormodol ar ddisgwyliadau gweinyddol y rôl, yn hytrach na chaffael medrau mentora o ansawdd uchel. Nid oes digon o gyfleoedd i fentoriaid gydweithio a rhannu arfer effeithiol mewn mentora o fewn ac ar draws rhwydweithiau.

Un o gryfderau'r bartneriaeth yw'r ymchwil gydweithredol, sy'n cynnwys staff y brifysgol ac ysgolion arweiniol y bartneriaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae gweithdai'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Addysgol Ifanc yn cynnwys disgyblion ac athrawon ysgolion cynradd yn llwyddiannus mewn ymchwil sy'n bwrpasol a chraff. Mae ysgolion yn y bartneriaeth yn gwerthfawrogi cyfleoedd i rannu eu hymchwil ac i weithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr hynod brofiadol yn eu maes.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2024